# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 30 Ebrill 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

(194)

**Datganiad y Llywydd**

Gan fod saith o'r cwestiynau a gyflwynwyd ar gyfer yr agenda heddiw wedi'u tynnu yn ôl, atgoffodd y Llywydd yr Aelodau fod tynnu cwestiynau yn ôl, wedi iddynt gael eu cyflwyno, yn effeithio'n ddifrifol ar allu'r Cynulliad i graffu ar waith y Llywodraeth. Mae Aelodau sy'n cyflwyno cwestiwn ar gyfer sesiwn na fyddant yn bresennol ynddi yn amddifadu Aelodau eraill o'r cyfle i ofyn cwestiwn. Atgoffodd y Llywydd yr Aelodau mai braint, nid hawl, yw cael eu galw i siarad yn y Cynulliad, ac y byddai'n cymryd camau priodol yn erbyn Aelodau sydd, drwy eu gweithredoedd eu hunain, yn amddifadu eraill o'r cyfle i ofyn cwestiwn.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Dechreuodd yr eitem am 13.31

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 6, 8 a 10 i 14. Tynnwyd cwestiynau 7, 9 a 15 yn ôl.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

Dechreuodd yr eitem am 14.22

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 5, 7 i 8 ac 11 i 15. Tynnwyd cwestiynau 6, 9 a 10 yn ôl.

## 3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.59

Tynnwyd y cwestiwn yn ôl.

## 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 14.59

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5493 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi argymhellion adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE.

2. Yn nodi ymhellach bod Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn cael eu dyfarnu i ranbarthau â chynnyrch mewnwladol crynswth o lai na 75% o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd ac yn gresynu bod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys am drydedd rownd o gyllid.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynlluniau a gyllidir gan yr UE yn cael eu diweddaru yn fwy cynhwysfawr ac yn fwy rheolaidd drwy WEFO.

4. Yn gresynu at fethiant dramatig prosiectau proffil uchel gan gynnwys Genesis 2 Cymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cyllid ar gyfer y cyfnod 2014-2020 yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau nad yw Cymru yn gymwys am bedwaredd rownd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 35 | 45 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod pa mor bwysig ydyw bod y DU yn parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd i wneud Cymru yn lle mwy llewyrchus, cynaliadwy a diogel.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pe byddai'r DU yn rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, mai dyna fyddai diwedd rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE ac y byddai'n niweidiol i'r economi.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 10 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio ar lefel Ewropeaidd i gryfhau rôl Pwyllgor y Rhanbarthau; a

b) ceisio cael llais cryfach i Gymru yn y Sefydliadau Ewropeaidd

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5493 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi argymhellion adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE.

2. Yn nodi ymhellach bod Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn cael eu dyfarnu i ranbarthau â chynnyrch mewnwladol crynswth o lai na 75% o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd ac yn gresynu bod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys am drydedd rownd o gyllid.

3. Yn cydnabod pa mor bwysig ydyw bod y DU yn parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd i wneud Cymru yn lle mwy llewyrchus, cynaliadwy a diogel.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynlluniau a gyllidir gan yr UE yn cael eu diweddaru yn fwy cynhwysfawr ac yn fwy rheolaidd drwy WEFO.

5. Yn gresynu at fethiant dramatig prosiectau proffil uchel gan gynnwys Genesis 2 Cymru.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cyllid ar gyfer y cyfnod 2014-2020 yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau nad yw Cymru yn gymwys am bedwaredd rownd.

7. Yn nodi pe byddai'r DU yn rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, mai dyna fyddai diwedd rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE ac y byddai'n niweidiol i'r economi.

8. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio ar lefel Ewropeaidd i gryfhau rôl Pwyllgor y Rhanbarthau; a

b) ceisio cael llais cryfach i Gymru yn y Sefydliadau Ewropeaidd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 33 | 45 |

**Gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 16.02

NDM5494 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r effaith economaidd a chymdeithasol gadarnhaol y mae'r dafarn yn ei chael ar gymunedau lleol.

2. Yn nodi ymhellach y gwaith nodedig sy'n cael ei wneud gan gynlluniau fel Pub is the Hub, ledled Cymru a Lloegr, o ran sicrhau y gall tafarnau ganolbwyntio mwy ar y gymuned.

3. Yn cydnabod bod yr astudiaethau achos gan grwpiau ymgyrchu, fel Pub is the Hub a'r Campaign for Real Ale, yn astudiaethau pwysig i ddysgu ohonynt.

4. Yn gresynu bod ystadegau diweddar y Campaign for Real Ale yn awgrymu bod tair tafarn yr wythnos yn cau yng Nghymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n fwy effeithiol gyda'r diwydiant tafarnau yng Nghymru i sicrhau llwyddiant parhaus tafarnau Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**6 Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.56

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM5495 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod y gyfradd ddiweithdra ymhlith ieuenctid yn 21.3% – y lefel uchaf o blith pedair gwlad y DU;

2. Yn gresynu bod diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc wedi cynyddu bedair gwaith ers ffurfio'r Llywodraeth Cymru bresennol;

3. Yn cydnabod gwerth pobl ifanc i economi Cymru; a

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau ar unwaith i wella rhagolygon economaidd pobl ifanc.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 8 | 0 | 37 | 45 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 3, ar ôl 'Cymru' rhoi 'ac yn gresynu mai dim ond 60% o raddedigion gradd gyntaf cyflogedig, llawn amser o Sefydliadau Addysg Uwch Cymru a arhosodd yng Nghymru i weithio chwe mis ar ôl graddio.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 23 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Ni ddetholwyd gwelliant 2 a gyflwynwyd ar gyfer y ddadl.**

**Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ym mhwynt 4, dileu 'gymryd camau ar unwaith' a rhoi yn ei le 'weithio ar y cyd gyda Llywodraeth y DU'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 31 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gasglu gwell data er mwyn cyfrannu at bolisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i allu cydweddu cyfleoedd hyfforddi a graddedigion yng Nghymru yn well.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 23 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gan fod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliannau i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17.41

**7 Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17.46

**NDM5488 Christine Chapman (Cwm Cynon)**

200,000 o blant tawel?

Ystyried anghenion plant sy'n dioddef gan fod eu rhieni wedi'u carcharu.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.04

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 6 Mai 2014**